

Cynllun Llesiant



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

Y

Blaenau Gwent a Garem

2018 i 2023





BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

Cynllun Llesiant Blaenau Gwent

Fersiwn: Cynllun Llesiant Blaenau Gwent i'w ystyried ar gyfer ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 26 Ebrill 2018.

Ymwrthodiad: Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd y cynllun hwn o dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddogfen gyhoeddedig hon yn rhan o ymagwedd barhaus i wella llesiant ym Blaenau Gwent, ac o ganlyniad bydd yn gael ei diweddarau fel sy'n briodol.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen hon ar gael ar wefan BGC:
<http://www.blaenau-gwent.gov.uk>

Ymwadiad: Sylwer bod lluniadau gwreiddiol wedi'u cynnwys o Raglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem. Mae'r lluniau hyn a ddarparwyd gan drigolion Blaenau Gwent yn cynnwys geiriau a fynegwyd yn yr Iaith Saesneg.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD



“Y Blaenau Gwent a Garem”

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent ac mae copïau caled hefyd ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd lleol Blaenau Gwent.

Os hoffech dderbyn copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â:

Polisi, Partneriaethau ac Ymgysylltu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Canolfan Ddinesig
Glynebwy
Blaenau Gwent
NP23 6XB

Ffôn: 01495 355935 / 357727

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English





BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
 PUBLIC SERVICES BOARD



Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent



Beth sydd yn y ddogfen hon?

Prif Ddogfen

Rhagair	<u>1</u>
Ein hardal - Proffil o Flaenau Gwent	<u>3</u>
Ffyrdd hawdd i chi wella eich llesiant	<u>5</u>
Llesiant ar draws y cwrs bywyd cyfan	<u>6</u>
Cyflwyniad	<u>7</u>
Y Blaenau Gwent a Garem... Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb	<u>12</u>
Y Blaenau Gwent a Garem... Cymunedau diogel a chyfeillgar	<u>20</u>
Y Blaenau Gwent a Garem... Gofalu am a diogelu'r amgylchedd	<u>28</u>
Y Blaenau Gwent a Garem... Llunio llwybrau newydd i ffyniant	<u>36</u>
Y Blaenau Gwent a Garem... Annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw yn y manau y maent yn byw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt	<u>44</u>

Dogfennau Cefnogi

Ymrwymiad a dull ein BGC	<u>52</u>
Rhaglen Cyflenwi Cynllun Llesiant 2018 i 2023 (Blwyddyn 1 2018/19)	<u>54</u>
Asesiad Llesiant i'r Cynllun Llesiant Terfynol	<u>58</u>
Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem	<u>61</u>
Sut byddwn ni'n monitro ein perfformiad	<u>64</u>
Cyd-destun polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol	<u>65</u>
Ymchwil a cudd-wybodaeth	<u>71</u>
Llesiant ar draws ycwrs bywyd cyfan	<u>73</u>
Sut mae ein cynllun yn cyfrannu tuag at y Nodau Llesiant Cenedlaethol ac yn cynnwys yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	<u>76</u>
Geirfa	<u>91</u>



Rhagair

Fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, rwy'n falch i gyflwyno Cynllun Llesiant Blaenau Gwent (Drafft Ymgynghori) 'Y Blaenau Gwent a Garem', i chi.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent yn Ebrill 2016 dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n dod ynghyd ag amrediad o gyrff sector cyhoeddus sydd â ffocws ar wella llesiant yr ardal.

Gan adeiladu ar ganfyddiadau Blaenau Gwent a Rhaglen Asesu Y Blaenau Gwent a Garem, cafodd pum nod llesiant lleol eu datblygu sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gweithredu ac agenda am newid dros y pum mlynedd nesaf.


Mae'r Cynllun Llesiant yn eiddo i bawb. Mae'n uchelgeisiol ac mae'n golygu y bydd angen i gyrff sector cyhoeddus weithio mewn ffyrdd newydd, ynghyd â chymunedau a rhanddeiliaid. Mae'n nod gan y cynllun i yrru newid sylweddol fydd yn trawsnewid yr ardal ac a fydd ag effeithiau cadarnhaol eang ar lesiant y cenedlaethau presennol a'r dyfodol ym Mlaenau Gwent.

Rydym hefyd yn eich gwahodd i gymryd yr amser i fod yn rhan o gyflawni'r cynllun gan ein bod yn sylweddoli bod gan bawb rôl bwysig i'w chwarae wrth wella llesiant.

Ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, fel y gallwn gyda'n gilydd, greu y Blaenau Gwent a Garem.

Y Cynghorydd Nigel Daniels

Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



Ein Hardal

Proffil o Flaenau Gwent



Blaenau Gwent fel lle

Mae Blaenau Gwent yn lle treftadaeth a newid dramatig, gyda synnwyr o'i gorffennol ond ei llygaid yn gadarn ar y dyfodol. Mae'n gymharol fach yn ddaearyddol, gan fod ar y mwyaf 15 milltir o'r gogledd i'r de, ac 8 milltir o'r dwyrain i'r gorllewin. Fe'i diffinnir yn gorfforol gan fryniau uchel sy'n rhannu'r tri prif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i drefi a phentrefi sy'n ymddangos fel pe baent yn uno i mewn i un cwm. Fodd bynnag, mae pob cymuned yn falch o gynnal ei gymeriad a'i draddodiadau ei hun.

Er bod y trefi yn rhoi teimlad prysur, trefol i'r fwrdeistref sirol, mewn gwirionedd mae ardal Blaenau Gwent yn ardal wledig i raddau helaeth. Lle bynnag yr ydych chi, nid yw cefn gwlad godidog byth yn bell i ffwrdd.

Hanes byr

Cyn dechrau'r 1800au, roedd yr ardal sydd bellach yn Flaenau Gwent yn ardal wledig, tawel, dan dylanwad pentrefi bach a thir fferm. Cymraeg oedd yr unig iaith, ac ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd o'r Saesneg.

Sbardunodd dechrau'r chwyldro diwydiannol newid trawsnewidiol wrth i bobl edrych i fanteisio ar y cyflenwad digonol o adnoddau y gellid eu darganfod. Yn y lle cyntaf, daeth hyn ar ffurf gweithfeydd haearn, a ddilynwyd yn gyflym gan gloddio glo a gwneud dur.

Wrth i'r diwydiannau dyfu, felly tyfodd y galw am lafur a phoblogaeth Blaenau Gwent yn rhyfeddol. Rhwng dechrau'r 19eg a dechrau'r 20fed ganrif, cododd y boblogaeth o tua 1,200 i dros 120,000.

Wrth i'n cymunedau ffynnu, felly gwnaeth yr angen am wasanaethau sydd eu hangen i ddelio â'r ffrwydrad gymdeithasol a diwylliannol hon, gan gynnwys enghreifftiau o addysg, iechyd, siopau a chyfleoedd hamdden. Arweiniodd hyn at dwf rhwydwaith o gymunedau a chymdogaethau, sy'n ffurfio trefi a chymdogaethau yr ydym ni'n eu hadnabod heddiw.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y bwrdd iechyd cyntaf erioed sy'n nodi Blaenau Gwent fel man geni'r GIG, ymgyrchoedd ar gyfer diwygio etholiadol, diddymu siopau a redir gan gwmnïau, a gostyngiadau mewn oriau gwaith, ac mae llawer ohonynt yn dal i ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau heddiw. Mae'r ysbryd cymunedol, sy'n etifeddiaeth barhaol o'r cyflawniadau hyn, yn fyw ac yn iach heddiw ac mae'n thema ailadroddus yn y cynllun hwn, fel y gwelwch.

Blaenau Gwent Heddiw

Yn ystod y cyfnod o ddiwedd yr 1980au gwelwyd ffurfio Blaenau Gwent fel y'i hadwaenir heddiw. Yn 1996 fe newidiodd o ardal Gwent i gyngor bwrdeistref sirol, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol.

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf mae pobl Blaenau Gwent wedi wynebu heriau, gan gynnwys cau glofeydd yn yr 1980au a chau Gwaith Dur Glynebwy yn 2002, gan arwain at golli swyddi mawr.

Amlygir hyn gan ostyngiad o 5% yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2011. Mae hyn yn wahanol i Gymru gyfan sydd wedi gweld cynnydd o 4%. Ar hyn o bryd, mae 49% o drigolion gweithio Blaenau Gwent yn cymudo y tu allan i'r fwrdeistref i weithio ac mae'r pellter cymudo wedi cynyddu.

Ni allwn amcangyfrif effaith y materion hyn. Er hynny, yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r ardal wedi gweld gwelliant sylweddol o ran strwythur ac amgylchedd, yn dilyn lefelau buddsoddiad cyfalaf mawr, a gwyrddni ein cymoedd fel mae natur yn aildeffro o'r creithio hirdymor a achoswyd trwy ein diwydiannau hanesyddol. Mewn ymgais i leihau effaith caead y pyllau glo a gwaith dur, mae ymdrech sylweddol wedi ei anelu at ail-ffocysu tuag at y diwydiant gweithgynhyrchu a gwasanaethau, sydd bellach yn rhan sylweddol o'r economi leol.



Mae **Aseiad Llesiant** Blaenau Gwent, a gyhoeddwyd ym Mai 2017, hefyd yn darparu darlun manylach o lesiant lleol.

Ffyrdd hawdd i chi wella'ch llesiant

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwella'ch llesiant, isod mae pum syniad y gallech eu hystyried.



1. Mynd am dro.

Beth am fynd allan i un o'n llawer o barciau, coedwigoedd, neu ardaloedd o harddwch naturiol.



2. Ymunwch â chlwb neu grŵp lleol.

Buddsoddi rhywfaint o'ch amser mewn rhywbeth rydych chi'n mwynhau ei wneud, neu rhywbeth rydych chi wastad wedi'i ddymuno.



3. Siarad gyda'ch cymdogion.

Cymerwch amser i gysylltu â phobl, yn enwedig os ydych chi'n gwybod nad ydynt yn mynd allan lawer.



4. Dysgu rhywbeth newydd.

Cadwch eich meddwl yn iach trwy wneud pethau newydd. Rhowch gynnig ar ddsbarth, darllenwch lyfr neu archwiliwch y rhyngrwyd.



5. Gwirfoddoli.

Rhowch rywbeth yn ôl trwy wirfoddoli mewn pethau.

Llesiant ar draws y cwrs bywyd cyfan

Mae ein Cynllun Llesiant ar gyfer pawb. Gan ddefnyddio ymagwedd cwrs bywyd cyfan, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud llesiant yn fwy effeithiol i bobl leol a chymunedau o bob oedran, o gysyniad embryo ar hyd y ffordd i'r cyfnodau diweddarach mewn bywyd a dod yn oedrannus. Mae'r diagram yn dangos sut y byddwn yn cyflawni hyn trwy gyflawni ein 5 **nod** llesiant

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.



Cyflwyniad

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent ym mis Ebrill 2016 fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("y Ddeddf"). Mae'n bartneriaeth o gyrrff cyhoeddus allweddol sydd drwy gydweithio â chyfrifoldeb enfawr dros greu lle y dymunwn fyw ynddo yn awr ac yn y dyfodol.


Mae'r Ddeddf yn torri tir newydd ac yn anelu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Caiff y weledigaeth o'r ddeddfwriaeth hon ei mynegi yn y saith Nod Llesiant Cenedlaethol a ddangosir ar y dudalen nesaf.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd i gyrrff cyhoeddus weithredu egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n dweud 'bod rhaid i anghenion y presennol gael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cynnwys y pum ffordd ddilynol o weithio a ddangosir isod:

 <p>Hirdymor</p>	 <p>Cynnwys</p>	 <p>Cydweithio</p>	 <p>Integreiddio</p>	 <p>Atal</p>
<p>Cydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor.</p>	<p>Gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd.</p>	<p>Cydweithio'n well gyda'n gilydd.</p>	<p>Gweithio mewn ffordd mwy cydlynus.</p>	<p>Atal problem rhag cychwyn, neu rhag gwaethygu.</p>

Nodau Llesiant Cenedlaethol yng Nghymru

Mae'r saith nod llesiant yn nodi'r math o Gymru y dymunwn ei gweld, yn awr ac yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi gweledigaeth a rennir i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio tuag ati:



Cyfeiriwch at [Yr Hanfodion](#) gan Lywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, sylweddolwn y cyfle a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth hon i wneud pethau'n wahanol. Mae hyn yn golygu y byddai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth uchelgeisiol a gaiff ei rhannu. Caiff y weledigaeth hon ei llunio gan yr hyn a ddywed y dystiolaeth wrthym, yr hyn a ddywed pobl yr ardal wrthym, yr hyn y credwn y gallwn ei gyflawni gyda phenderfyniad, a drwy goleddu'r pum ffordd o weithio.

Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu cynllun cydlynus ar gyfer sicrhau llesiant. Fel rhan o'r cynllun rydym wedi blaenoriaethu'r pum nod llesiant allweddol i'w datblygu er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol ar gyfer pobl a chymunedau lleol.

Ein Nodau Llesiant ar gyfer 2018 i 2023

1	Mae Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y cychwyn gorau mewn bywyd ...	Sicrhau bod blynyddoedd cynnar cenedlaethau'r dyfodol yn iach, yn hapus, yn rhydd rhag niwed ac yn barod i lwyddo.
2	Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar ...	Creu cymunedau mwy diogel, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac sydd â chysylltiadau cymdeithasol da, yn gymdeithasol gyfrifol ac sydd â bywyd diwylliannol da.
3	Mae Blaenau Gwent am ofalu am ofalu am ac amddiffyn ei hamgylcheddau naturiol ...	Creu ardal fywiog sy'n byw mewn cytgod â'i hamgylcheddau naturiol, gan ddefnyddio adnoddau mewn ffordd deg a chynaliadwy.
4	Mae Blaenau Gwent eisiau llunio llwybrau newydd i ffyniant ...	Lle ble mae pobl yn ffynnu ac yn cyflawni eu potensial dysgu llawn a gydol oes.
5	Mae Blaenau Gwent eisiau annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau byw'n iach yn y manau y maent yn byw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt.	Lle ble mae pobl yn byw'n hirach gyda gwell iechyd, lle ble mae ymddygiadau iach yn dod yn 'norm'.

Mae pob nod llesiant yn bwysig, ac o statws cyfartal. Mae pob un o'r pum nod llesiant yn gysylltiedig, a rhaid eu hystyried ar y cyd, os ydym am wella llesiant yr ardal yn llwyddiannus a gwneud y mwyaf o gyfraniad ardaloedd tuag at gyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Bydd canolbwyntio ein gwaith ar bum maes allweddol yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau ei fod yn gallu gwneud y gorau o'r defnydd o'i adnoddau cyfyngedig. Gan ganiatáu i ni ganolbwyntio'n hymdrechion yn effeithiol, er mwyn sicrhau newid ac i gyflawni'r effaith fwyaf y gallwn ar feysydd llesiant. Rydym yn cydnabod na fyddwn yn gallu datrys pob problem, ond trwy weithio'n well ynghyd â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol, byddwn yn gallu cyflawni mwy a sicrhau gwell canlyniadau i'r ardal.

Mae ein cynllun llesiant yn gynllun hirdymor sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal dros y 35 mlynedd nesaf. Fe'i rhennir yn gyfnodau cyflenwi tymor canolig o bum mlynedd, gyda'r lansiad cyntaf yn cael ei lansio ym mis Mai 2018 hyd at Fai 2023. Yn ystod pob cam cyflwyno, byddwn yn monitro ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd a byddwn yn atebol am ein hymrwymiaadau yn unol â dyletswyddau'r Ddeddf.

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.




Datblygwyd y pum nod llesiant hyn drwy adeiladu ar dystiolaeth o **Aseiad Llesiant** Blaenau Gwent, mewnwelediad dinasyddion o Raglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem, a hefyd arbenigedd proffesiynol a ddarperir gan bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach.

Trosolwg o'r adran

Rhennir y ddogfen yn bum prif adran sy'n darparu gwybodaeth allweddol ar gyfer pob un o nodau llesiant Blaenau Gwent. Rhennir pob prif adran i'r is-adrannau canlynol:

1	Trosolwg	Yn gosod yr olygfa a rhoi cyflwyniad i'r nodau llesiant.
2	Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthym?	Yn tynnu sylw at yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym yn ystod Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem.
3	Pam mae hyn yn bwysig?	Dywed pam fod y nod llesiant hwn yn bwysig i'r ardal, gan amlinellu rhai o'r prif benawdau ystadegol a lle bo'n bosib ystyried tueddiadau yn y dyfodol.
4	Pa wahaniaeth yr ydym am ei wneud?	Yn amlinellu'r effeithiau cadarnhaol eang ar lesiant yr ydym yn ceisio'i gyflawni ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
5	Sut fyddwn ni'n cyflawni?	Yn darparu trosolwg o'r camau a fwriedir i'w darparu ar draws y cynllun llesiant cyfan. Yn amlinellu gwybodaeth bellach am yr hyn yw'r camau arfaethedig ar gyfer cyflawni yn erbyn pob un o'r nodau llesiant dros y tymor byr, canolig a hir. Yn tynnu sylw at enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddangos sut y gallai camau gweithredu edrych, lle y bo modd.
6	Beth yw'r manteision eraill?	Yn tynnu sylw at fanteision llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y mae'r camau arfaethedig i'w cyflenwi yn ceisio'u cyflawni.



Mae Blaenau Gwent Eisiau...

Y Dechrau Gorau mewn Bywyd i Bawb

Mae Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd...

Trosolwg

Mae plentyndod cynnar yn gyfnod allweddol mewn bywyd all benderfynu tipyn ar lesiant person yn y dyfodol. Caiff llawer o ddeilliannau gwybyddol ac ymddygiadol plentyn eu penderfynu yn ei 1000 diwrnod cyntaf (o'r cenhedlu i'r ail ben-blwydd). Mae hyn yn gosod y llwyfan ar gyfer eu datblygiad a'u hiechyd gydol eu hoes, dysgu a chyrhaeddiad, i berthnasoedd, (yn cynnwys bywyd teulu) a'r hyn a drosglwyddir i genedlaethau'r dyfodol.

Gall cyflenwi gwasanaethau blynyddoedd cynnar fod yn effeithlon o ran cost a sicrhau deilliannau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n creu cymunedau iachach a hapusac. Mae yna gyfleoedd hefyd i blant allu tyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel y byddwn yn ceisio ei wneud yn fwyaf posibl.

Fodd bynnag, mae gwneud yn siŵr fod gan bawb fynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth cywir, ar yr adeg gywir, yn hollbwysig os yw cyrff sector cyhoeddus i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i'r cenedlaethau cyfredol a'r dyfodol i ffynnu. Mae gwaith i gefnogi hyn eisoes yn digwydd trwy ymyriadau a mentrau presennol. Rydym yn bwriadu helpu i wneud uchafu effaith, cynyddu cydweithio a, lle bo hynny'n briodol, datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy'r cynllun hwn.



Mae'r mathau o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r dechrau gorau mewn bywyd yn cynnwys bwydo ar y fron, iechyd y geg, defnydd brechiadau, cefnogaeth rhianta, gostwng ysmegu a defnydd alcohol yn ystod beichiogrwydd a diogelu.

Pam fod hyn yn bwysig?

Yn ystod Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem roedd pobl yn cydnabod fod rhoi'r cychwyn gorau i fywyd i blant yn her allweddol oedd angen cefnogaeth benodol, yn neilltuol o gofio fod Blaenau Gwent yn ardal amddifadus. Teimlai llawer mai dyma'r peth pwysicaf i'w gael yn iawn ac y byddai gwelliannau yma yn cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o'n blaenoriaethau eraill.

Y tri phrif fater y dywedodd pobl wrthym amdanant oedd:

(21%)

Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc

(11%)

Addysgu/codi ymwybyddiaeth

(9%)

Cefnogaeth

"Mae angen mwy o bethau i blant eu gwneud i'w cadw allan o drwbwl."

"Mae llawer iawn o gamddefnyddio sylweddau ar draws yr ardal."

"Nid yw pob rhiant yn gallu helpu; nid yw rhai'n gallu darllen nac ysgrifennu eu hunain. Nid oes neb yn darllen straeon i rai plant."

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae sicrhau bod **pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd** yn bwysig gan fod ganddo effaith pellgyrhaeddol ar draws pob un o'r nodau llesiant a Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae cost y 'dechrau gwaethaf mewn bywyd' ar wasanaethau cyhoeddus yn uchel iawn. Eto gallai buddsoddi mewn ymyriadau blynyddoedd cynnar helpu i sicrhau arbediad o £72 biliwn (dros gyfnod o 20 mlynedd) ledled Cymru drwy atal materion allweddol cysylltiedig.

Mae nifer o faterion yn wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd Blaenau Gwent. Er enghraifft, fel ardal o amddifadedd uchel, mae ganddi'r ganran uchaf o'i is-wardiau (23.4%) yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae ymchwil tueddiadau yn y dyfodol yn awgrymu y rhagwelir y bydd tlodi plant cymharol yn codi'n sylweddol o 29% (2014-15) i 36% yn 2021-22, ledled Cymru. Fodd bynnag, mae lefel bresennol Blaenau Gwent eisoes yn 35%.

Mae mynd i'r afael â thlodi plentyndod (yn cynnwys tlodi mewn gwaith) yn allweddol i gyflawni'r nod llesiant hwn (gan gynnwys tlodi yn y gwaith) gan y dengys tystiolaeth y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd teulu yn gyffredinol gan arwain at well cyrhaeddiad addysgol, gwell iechyd, cynnydd mewn disgwyliad oes a deilliannau cadarnhaol i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.



i Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn [Asesiad Llesiant Blaenau Gwent](#) ac [Adroddiad Tueddiadau Dyfodol yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru 2017.

Beth yw'r manteision eraill?

Mae gan sicrhau fod pawb yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd y potensial i ddod â manteision eang i feysydd eraill o lesiant. Er enghraifft, bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gryfach yn economaidd ac yn gymdeithasol a gallant gyfrannu'n effeithlon at ddiwylliant a bywiogrwydd ardal. Bydd buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at gymunedau mwy diogel a hyderus sy'n defnyddio eu hamgylchedd i ymchwilio, dysgu a datblygu.



Darperir ragor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Sut fyddwn ni'n darparu'r cychwyn gorau mewn bywyd i bawb?

Bydd rhai o'r camau allweddol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Deall mwy am ein gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys eu hansawdd a lle mae'r bylchau;
- Datblygu 'map ffordd y blynyddoedd cynnar' sy'n arwain teuluoedd tuag at y gefnogaeth gywir;
- Sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn Brofiadau Plentyndod Gwrthdrawiadol parod
- Archwilio sut y gall canolfannau 'llesiant' helpu i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant





Mae Blaenau Gwent eisiau...

Cymunedau Diogel a Chyfeillgar

Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar...

Trosolwg

Mae gan Flaenau Gwent asedau cymunedol cadarn ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth. Mae rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig i helpu pobl gyflawni deilliannau llesiant sy'n arwain at gymunedau mwy diogel, mwy chyfeillgar a chysylltiedig.

Mae gan yr ardal ystod dda o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys parciau, canolfannau cymunedol, sefydliadau, canolfannau gweithredu dysgu, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, sinemâu a theatrau ac amgueddfeydd.

Rydym yn falch o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n hamgylchedd naturiol, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i'w diogelu, cadw a gwella.

Mae'r bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cydnabod fod materion diogelwch cymunedol allweddol i'w trin na ellir ond eu trin mewn partneriaeth. Felly, bydd yn hollbwysig datblygu rhaglen weithredu sy'n anelu i fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol) ac atal eithafiaeth, yn ogystal â darparu cefnogaeth i bobl a chymunedau sy'n agored i niwed. Mae gwaith ar yr ardaloedd hyn eisoes yn digwydd trwy ymyriadau a mentrau presennol. Rydym yn bwriadu helpu i wneud y mwyaf o effaith, cynyddu cydweithio a, lle bo hynny'n briodol, datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy'r cynllun hwn.

Mae Blaenau Gwent eisiau cael cymunedau diogel a chyfeillgar, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gan ddefnyddio agwedd 'lle cyfan', bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd ati i gadw, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol Blaenau Gwent, amgylcheddau naturiol, a bydd yn cefnogi aneddiadau ffyniannus a bywiog a datblygiadau newydd. Byddwn yn datblygu partneriaeth fwy cyfartal gyda dinasyddion a chymunedau, gan rymuso ac ysgogi pobl i gefnogi niwed a chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am yr ardaloedd y maent yn byw ynddynt.

Bydd y nod hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion allweddol dio gelwch cymunedol ac yn anelu i sicrhau newid dros gyfnod hir.



By tackling harmful behaviours such as grass fires, illegal off-road vehicle use, littering and fly tipping we can maintain the natural rugged beauty of our valleys and a strong sense of identity which impacts positively on those who visit, work and live here.

Beth ddywedodd pobl wrthym?

Yn ystod **Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem** dywedodd rhaid pobl wrthym eu bod o'r farn bod **lefelau isel o falchder yn yr ardal**. I fynd i'r afael â'r mater hwn, dywedodd pobl y dylai fod mwy o weithgareddau ar gael ac wedi'u hysbysebu, lle gall pobl ddod i adnabod ei gilydd i helpu i leihau lefelau ynysu.

Dywedodd pobl wrthym nad yw **cludiant** yn yr ardal yn ddigonol a gall arwain at unigrwydd a cholli cyfleoedd. Rydym hefyd yn cydnabod y gall ynysu arwain at **iechyd meddwl gwael**, gan gynnwys iselder ysbryd a phryder y dylid ei gefnogi i wella iechedd meddwl cyffredinol.

Dywedodd pobl wrthym hefyd eu bod eisiau mwy o heddlu ar y strydoedd gan y teimlent y byddai hyn yn gostwng **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB)** a'u helpu i deimlo'n fwy diogel, yn arbennig yng nghanol trefi.

Ystyriwyd bod **camddefnyddio sylweddau** yn broblem arbennig i Flaenau Gwent gyda chymryd cyffuriau i'w weld yng nghanol trefi a pharciau lleol.

Y tri phrif fater y dywedodd pobl wrthym amdanynt oedd:

(29%)

Presenoldeb yr heddlu

(14%)

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Fandaliaeth

(8%)

Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc

"Mae parciau sglefrio ar gyfer sglefrio, nid cymryd cyffuriau"

"Amgylchedd sy'n codi braw ar bobl ifanc yng nghanol trefi"

"Mae cyffuriau ym mhobman yn yr ardal"

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Why is this important?

Mae **creu cymunedau diogel a chyfeillgar** yn bwysig gan fod ganddo effaith pellgyrhaeddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae pobl ym Mlaenau Gwent yn rhoi adroddiad am 70.96 trosedd i'r heddlu ar gyfer pob mil o bobl. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Gwent o 68.33. Mae faint o ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddir i'r heddlu yn parhau i ostwng yn yr hirdymor, er y gall hyn fod oherwydd y caiff rhai digwyddiadau eu cofnodi mewn ffordd wahanol erbyn hyn. Mae nifer y bobl sy'n adrodd am gam-drin domestig i'r heddlu wedi cynyddu, a 14% o'r holl achosion o gam-drin domestig a adroddir yng Ngwent yn cael eu hadrodd ym Mlaenau Gwent.

Gyda cham-drin domestig yn un o'r Profiadau Niweidiol mewn Plentynod (ACEs), rydym yn cydnabod sut mae ACEs yn effeithio ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae ychydig dros hanner y bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent yn meddwl ei bod yn ddiogel i blant chwarae tu allan (51%), gan ddangos nad yw bron hanner y boblogaeth yn tybio ei bod yn ddiogel i blant chwarae tu allan.

Ymhellach, erbyn 2035 amcangyfrifir y bydd pobl 65 oed a throsodd yn ffurfio 23 y cant o'r holl boblogaeth.

Ar hyn o bryd mae pobl hŷn yn ffurfio 25% o boblogaeth Blaenau Gwent, a disgwylir y bydd y tueddiad hwn yn cynyddu. Mae sicrhau bod pobl hŷn yn teimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig yn ffocws pwysig i ni. Ar hyn o bryd, mae 47% o bobl 65 oed a throsodd yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol; dywedodd 20% eu bod 'weithiau', a dywedodd 20% nad oeddent yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol.



i Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn **Asesiad Llesiant Blaenau Gwent** ac **Adroddiad Tueddiadau Dyfodol yng Nghymru**, Llywodraeth Cymru 2017.

Beth yw'r manteision eraill?

Gall creu cymunedau diogel a chyfeillgar ddod â manteision eang i feysydd eraill llesiant. Er enghraifft, gall cymunedau bywiog lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi cysylltu ac yn perthyn wella nerth economaidd yn ogystal â chymdeithasol ardal. Bydd hefyd yn hyrwyddo Blaenau Gwent fel ardal i wneud busnes, man i fuddsoddi ac fel lle deniadol i ymweld ag ef fel cychfan twristiaeth. Bydd cymunedau sy'n fwy diogel yn arwain at well diogeliad, balchder a mwynhad o amgylcheddau naturiol yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Sut y byddwn ni'n darparu cymunedau diogel a chyfeillgar?

Bydd rhai o'r camau allweddol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Defnyddio sgiliau, profiadau ac adnoddau pobl leol i greu cymunedau cryf, cysylltiedig
- Datblygu ymagweddau yn seiliedig ar ardaloedd sy'n ymateb i faterion diogelwch cymunedol
- Creu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed





Mae Blaenau Gwent Eisiau...

Gofalu am a Diogelu'r Amgylchedd

Mae Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu'r amgylchedd...

Trosolwg

Mae ein hamgylchedd yn llawer mwy canolog i lesiant ein bywydau dydd i ddydd nag a sylweddolwn efallai. Dyma'r manau rydym yn byw, yn gweithio ac yn dysgu ynddynt, y strydoedd y cerddwn arnynt a'r cefn gwlad sydd o'n cwmpas. Dyma'r manau yr ydym yn ymweld â hwy ar gyfer mwynhad a hamdden, ac mae'n darparu cyflogaeth

I ofalu a diogelu ein hamgylchedd, mae yna heriau yn cynnwys newid yn yr hinsawdd a cholli cynefinoedd naturiol y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni wella ein taith gerdded gwyrdd trefol a beicio ac ailgylchu mwy ac edrych ar ôl y tir mewn ffordd gynaliadwy.



Rydym ni'n dibynnu ar yr amgylchedd ar gyfer "gwasanaethau ecosystemau" sef yr aer rydym ni'n ei anadlu, y dŵr glân yr ydym yn ei yfed, y bwyd rydym yn ei fwyta, a'r ynni sy'n gwresogi ein cartrefi.

Beth ddywedodd pobl wrthym?

Yn ystod **Rhaglen Ymgysylltu y Blaenau Gwent a Garem** dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod yn trysori'r asedau naturiol sydd gan Blaenau Gwent i'w cynnig. Daeth darlun i'r amlwg o ardal y mae pobl yn ymfalchio ynddi ond hefyd am ei gweld yn cael gwell gofal.

Mae awydd gwirioneddol i weld bod cymunedau'n cael eu cadw'n lân, yn daclus ac yn ddefnyddiol. Awgrymodd nifer ohonynt gymryd mwy o gamau i amddiffyn yr amgylchedd a gwneud yr ardal yn lle gwell i fyw, gweithio a denu mwy o ymwelwyr i'r ardal trwy dwristiaeth.

Y tri phrif fater y dywedodd pobl wrthym amdanynt oedd:

(39%)

Ardal lân a thaclus

(14%)

Gwastraff ac ailgylchu

(10%)

Cadwraeth

"Mae gennym hanes gwych ym Mlaenau Gwent. . Denu a buddsoddi mewn twristiaeth"

"Diffyg parch at yr amgylchedd – codwch eich sbwriel!"

"Cefnogi pobl i wneud eu cartref yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd"

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae allyriadau carbon deuocsid byd-eang wedi cynyddu gan bron 50 y cant ers 1990. Dim ond gan 18% y mae Cymru wedi gostwng yr allyriadau hyn ers 1990.

Mae Cymru yn un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop (14%), ond Blaenau Gwent yw un o'r siroedd mwyaf coediog yng Nghymru (22.5%) a 65% o bobl sy'n byw ym Blaenau Gwent yn byw o fewn 400m o'u manau gwyrdd hygyrch agosaf.

Rydym hefyd yn cydnabod fod ardaloedd lle gallwn barhau i wella. Er enghraifft, mae cyfradd ailgylchu Blaenau Gwent yn 57% (2016-17). Dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru ond mae'n gynydd mawr o 48% y flwyddyn flaenorol.



i

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn [Aseid Llesiant Blaenau Gwent](#) ac [Adroddiad Tueddiadau Dyfodol yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru 2017.

Beth yw'r manteision eraill?

Drwy weithio i gyflawni'r nod hwn, gallwn ostwng ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil a bod yn fwy parod ar gyfer i genedlaethau presennol a'r dyfodol symud i economi carbon isel, rhywbeth y gwyddom fod yn rhaid i ni wneud. Sylweddolwn y bydd hyn yn arwain at fanteision megis arbedion cost ar unwaith a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ac yn y blaen.

Fodd bynnag, mae hefyd nifer o fanteision cysylltiedig ac eilaidd os gallwn gyflawni'r hyn a awn ati i'w wneud.

Mae ymchwil hefyd yn dangos y gall fod manteision sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant corfforol o fod allan yn yr awyr agored ac wedi ymgysylltu â natur. Mae hyn yn rhoi cyswllt naturiol â rhai o'r dulliau rhagnodi cymdeithasol y mae gennym ddi-ddordeb mewn ymchwilio ymhellach iddynt fel rhan o'n 'Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar ...' nod llesiant.

Gall amgylchedd glân, diogel a hygyrch y gellir ei gyrraedd yn hawdd, chwarae rhan arwyddocaol wrth i bobl fod yn weithredol yn eu cymunedau, gan greu cymdogaethau mwy diogel, mwy cydlynol a manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol.

Bydd plant yn fwy tebygol o chwarae, a chael caniatâd i chwarae yn yr awyr agored os gallant chwarae mewn amgylchedd sydd wedi'i gadw'n dda, diogel a hygyrch. Bydd hyn yn eu helpu i ymarfer, cymdeithasu a dysgu.

Mae pobl sy'n rheolaidd yn weithredol yn eu hamgylcheddau ac yn cymryd rhan mewn teithio gweithredol yn llai tebygol o ddi-ddoddef cyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â ffyrdd o fyw anweithgar. Ar lefel fwy amlwg, mae cael olygfa stryd a thirwedd sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn gwella'r canfyddiad o'r ardal yn gallu cyfrannu tuag at wneud Blaenau Gwent yn lle sy'n ddeniadol i fyw ynddi, ymweld â hi a buddsoddi ynddi, gan helpu ein diwydiant twristiaeth, gostyngiad yn y boblogaeth a'r angen am fwy o fuddsoddiad a busnesau ffyniannus.

Gall lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a symud i 'economi carbon isel' ddarparu swyddi a denu buddsoddiad. Bydd gerio ein defnydd tuag at ynni adnewyddadwy hefyd yn brawf fesur ein hunain yn erbyn y posibilrwydd o brinder ynni ac ysgytiadau yn y dyfodol. Bydd Blaenau Gwent sy'n fwy ynni diogel gyda chartrefi cynnes hefyd yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd, ac yn helpu i leihau marwolaethau'r gaeaf a phroblemau anadlol cysylltiedig sy'n gysylltiedig â chartrefi oer.

Wrth i ni leihau ein hól troed carbon trwy arferion caffael mwy cynaliadwy, gallwn gyflawni ein rôl fel dinesydd byd-eang trwy ddefnyddio dewisiadau amgen sy'n foesebol a chynaliadwy megis cynhyrchion Masnach Deg, Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth a Chyngor Stiwardiaeth Forol a gymeradwywyd yn gynaliadwy.

Sut fyddwn ni'n cyflawni gofalu am a gwarchod ein hamgylcheddau naturiol?'


Bydd rhai o'r camau allweddol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Arwain ar weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd trwy gyflwyno prosiect carbon cadarnhaol
- Hyrwyddo teithio gweithredol i leihau ein hól troed carbon cyfunol
- Gwneud Blaenau Gwent yn lle glanach, gwyrdd lle gall natur ffynnu





Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i' cynllun hwn.



Mae Blaenau Gwent Eisiau...

Llunio Ffyrdd Newydd i Ffyniant

Mae Blaenau Gwent eisiau llunio llwybrau newydd i ffyniant ...

Trosolwg

Mae un o bob pedwar o bobl Cymru yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd ac mae Blaenau Gwent yn dioddef yn wael o hyn. Mae gennym y gyfradd uchaf o ran tlodi plant yng Nghymru a rhai o'r cymunedau mwyaf amddifadus nid yn unig yng Nghymru a Phrydain ond yn Ewrop gyfan. Nid cyd-ddigwyddiad yw hi ein bod hefyd yn un o'r lleoedd lleiaf cystadleuol ym Mhrydain a'n bod am ddegawdau wedi dioddef o ddirywiad economaidd yn gysylltiedig gyda dad-ddiwidianoli.

Mae canlyniadau hyn yn amlwg iawn yng nghanol ein trefi, yn y nifer o bobl sy'n gorfod gadael yr ardal i gael gwaith ac sydd allan o waith neu mewn swyddi ansicr, cyflog isel. Mae natur tlodi ei hunan wedi newid. Nid yw cael swydd neu hyd yn oed ddwy neu dair swydd yn gwarantu bywyd llewyrchus. Mae ffenomen tlodi mewn-gwaith yn bryder cynyddol i ni a chaiff hyn ei ddangos gan y ffaith fod teuluoedd a phobl ifanc mewn gwaith yng Nghymru mewn mwy o risg o dlodi yn awr nag oeddent ddegawd yn ôl.

Bydd cael economi llwyddiannus yn golygu fod yn rhaid i ni symud ymaith o batrymau twf economaidd na all barhau gan nad ydynt yn gynaliadwy. Mae llawer o ymyriadau sydd wedi bod o'r blaen wedi helpu i greu swyddi a lliniaru effeithiau dad-ddiwidiannu ond nid ydynt wedi achosi'r raddfa newid sydd ei hangen i ddiwallu anghenion datblygu economaidd yr ardal. Mewn adegau o argyfyngau economaidd, cymunedau fel ein rhai ni yw'r cyntaf i deimlo'r effeithiau a'r olaf i elwa ar adferiad. Dyna pam mae angen economi leol arnom sy'n fwy gwydn i newid a chynaliadwy yn wyneb tueddiadau fel globaleiddio, newid yn yr hinsawdd, ymadawiad yn y DU o'r Undeb Ewropeaidd a phoblogaeth sy'n heneiddio.



Mae hyn yn bwysig oherwydd bod yr amgylchiadau economaidd ar gyfer ein bywydau yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n penderfynu llesiant. Mae'n gefndir i'n profiadau dyddiol a'r amodau rydym yn byw ynddynt. Mae'n effeithio ar ein dyheadau a'n plant a'n wyrion. Mae hefyd yn bwysig oherwydd cydraddoldeb a thegwch – ni ddylai cyfleoedd bywyd neb fod dan anfantais neu weid'u lleihau oherwydd lle maent yn byw

Beth ddywedodd pobl wrthym?

Yn ystod **Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem** dywedodd llawer o bobl wrthym fod gwella ansawdd addysg yn bwysig, a bod angen i blant fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer swyddi drwy gyflwyno cwricwlwm mwy cadarn ar gyfer bywyd a fyddai'n rhoi'r sgiliau y byddai plant eu hangen i gael swyddi.

Roedd teimlad amlwg mai'r brif broblem am gyflogaeth oedd nid cymaint prinder sgiliau sydd ar gael, ond **diffyg swyddi lleol a chysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gwael**. Er enghraifft, roedd llawer o bobl yn feirniadol o'r gwasanaethau bws gan ddweud eu bod yn aml yn hwyr, nad oeddent ar gael yn gynnar yn y bore, eu bod yn rhy ddrud ac nad oeddent yn rhoi cysylltiadau digonol i swyddi.

Dywedodd pobl hefyd fod angen mwy o gynlluniau prentisiaeth a chyfleoedd gwirfoddoli i roi profiad 'mewn swydd' i bobl.

Y tri phrif fater y dywedodd pobl wrthym amdanynt oedd:

(17%)

Addysgu / codi ymwybyddiaeth

"Gofynnir i bobl ddiwaith wneud cais am swyddi heb unrhyw obaith o gyrraedd yno oherwydd nad oes trafniadaeth gyhoeddus ar gael"

(12%)

Argaeledd swyddi

"Brynmawr yw'r unig le y medrwch fynd iddo o Abertyleri am 8 o'r gloch yn y bore ac mae'n cymryd awr a hanner i fynd i Lynebwy!"

(12%)

Cludiant cyhoeddus

"Angen mwy o swyddi nid dim ond sgiliau!"

Darperir rhagor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Pam fod hyn yn bwysig?

Blaenau Gwent yw'r lle lleiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig i gyd. Mae gennym 294 o fusnesau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth oedran gwaith sy'n isel o gymharu ag ardaloedd cyfagos ac yng Nghymru yn gyffredinol (481 fesul 10,000 o boblogaeth oedran gwaith). Nid oes gan 20% o bobl unrhyw gymwysterau ac mae bron chwarter y preswylwyr yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus ledled Cymru.

Ar gyfartaledd mae pobl yn ennill £433.90 yr wythnos o gymharu ag enillion cyfartalog o £623.40 yn Sir Fynyw a £498.30 ar gyfer Cymru.



i Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn [Asesiad Llesiant Blaenau Gwent](#) ac [Adroddiad Tueddiadau Dyfodol yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru 2017.

Beth yw'r manteision eraill?

Os gallwn wella ffawd economaidd Blaenau Gwent, gwyddom y gall cael rhagolygon economaidd gwell arwain at nifer o fuddion eraill yn cynnwys iechyd. Er enghraifft, os oes gan fwy o bobl swyddi o ansawdd da, cyflog da mae'n debycach y byddant yn byw'n iachach ac yn hirach.

Bydd cael economi lleol cryfach hefyd yn helpu i ostwng "ôl-troed carbon" Blaenau Gwent. Os caiff mwy o nwyddau a gwasanaethau eu cynhyrchu'n lleol, a mwy o swyddi yn nes adref, mae'n golygu y bydd allyriadau carbon is o bobl yn symud i mewn ac allan o'r ardal i weithio, ac o nwyddau a gwasanaethau yn cael eu cludo i'r ardal o ymhellach i ffwrdd.



Darperir ragor o wybodaeth mewn dogfennau ategol i'r cynllun hwn.

Sut byddwn ni'n darparu llwybrau newydd i ffyniant?

Bydd rhai o'r camau allweddol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn yn cynnwys:

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ffyniant trwy brosiectau rhanbarthol megis Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- Sicrhau fod gan bobl y sgiliau cywir ar gyfer y dyfodol
- Ymateb i ddiwygio llesiant er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth gywir





Mae Blaenau Gwent Eisiau...

**Annog a Galluogi Pobl i Wneud Dewisiadau
lach o ran ffordd o Fyw yn y manau maen
nhw'n Byw, Dysgu, Gweithio a Chwarae**

Mae Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffordd o fyw iach...

Trosolwg

Mae Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffordd o fyw iach er mwyn hyrwyddo iechyd da a gostwng lefelau o iechyd gwael ac afiechyd.

Mae gan Blaenau Gwent boblogaeth sydd ar gyfartaledd yn llai iach na gweddill y boblogaeth yng Nghymru. Mae ein cyfraddau disgwyliad oes a lefelau disgwyliad bywyd iach yn is na chyfartaledd Cymr

Mae'r gyfradd o bobl sy'n cael digon o weithgaredd corfforol i fod o fudd i'w hiechyd ym Mlaenau Gwent dros y degawd diwethaf wedi parhau yn ei unfan.

Dechrau Gorau mewn Bywyd



Amcan hynod bwysig i **bob plentyn a pherson ifanc** ym Mlaenau Gwent, gan roi ffocws cryf ar fuddsoddi yn ein cenedlaethau presennol ac yn y dyfodol.



Bydd y nod hwn hefyd yn bwysig iawn i'r **rhieni a'r teuluoedd** ym Mlaenau Gwent, yn enwedig gan mai hwy yw'r bobl fwyaf cyfrifol wrth greu'r amgylcheddau er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd



Mae profiad ein pobl hŷn, **fel neiniau a theidiau a chyfoedion hŷn**, yn hanfodol wrth sicrhau nid yn unig i drosglwyddo sgiliau allweddol i'n plant a'n pobl ifanc, ond hefyd yn wybodaeth bwysig am ein hanes a'n diwylliant.

Cymunedau Diogel a Chyfeillgar



Mae'r nod hwn yn bwysig yn ystod **beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar** i sicrhau bod mamau beichiog, rhieni newydd a phlant ifanc yn byw ac yn profi **amgylcheddau a chymunedau cartref diogel a chefnogol**.



Gall cyflawni'r nod hwn helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus i adael i'w plant **chwarae y tu allan**, a bod yn gyfforddus i dreulio amser a chymryd rhan yn eu cymunedau cymdogaeth a datblygu rhwydweithiau cefnogi o'u cwmpas.



Mae cymunedau diogel a chyfeillgar yn hanfodol i helpu i oresgyn **unigrwydd ac unigedd** a helpu i sicrhau bod ein pobl hŷn yn byw mewn cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran a'u galluogi i fyw bywyd yn llawn.

Gofalu am a Diogelu'r Amgylchedd



Mae mynediad i aer glân a dŵr a bwyd diogel yn rhan annatod o feichiogrwydd a datblygiad plentynod cynnar. Bydd gofalu am yr amgylchedd yn helpu i sicrhau bod yr amodau hyn ar gael nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae blynyddoedd cynnar a ffurfiannol yn hanfodol ar gyfer datblygu arferion defnydd cadarnhaol nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd ac i greu **perthynas gadarnhaol â natur**.



Mae amgylchedd naturiol sy'n cael gofal da yn ein galluogi i **gael mynediad i'n swyddi, cyfleoedd hamdden a mwynhau ein hamgylchedd naturiol** trwy bob cam o'n bywyd fel oedolyn.

Llunio llwybrau newydd i ffyniant



Mae'r amcan hwn yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau bod rhieni a theuluoedd yn gallu darparu ar gyfer anghenion eu plant a bod ganddynt ansawdd bywyd da.



Bydd y nod hwn yn helpu i gefnogi plant ac oedolion ifanc sydd â'r hyder a'r dyhead i **ddatblygu eu potensial llawn**. Bydd yn rhoi sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd iddynt a rhoi gwerth uchel ar addysg o safon a datblygiad.



Drwy greu llwybrau newydd i ffyniant, bydd pobl mewn gwell sefyllfa i gael mynediad i **gyflogaeth sefydlog o ansawdd uchel sy'n rhan o economi leol gryfach**. Bydd yn caniatáu i bobl fyw eu blynyddoedd aeddfed yn gyfforddus.

Annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw yn y manau maen nhw'n byw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt.



Mae'r amcan hwn yn bwysig yn ystod **beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar** i sicrhau bod mamau sy'n disgwyl, rhieni newydd a iechyd plant ifanc yn dda yn ystod y **cyfnod datblygu critigol hwn**.



Gosodir patrymau ymddygiad yn aml yn ystod plentyndod a blynyddoedd ffurfiannol. Bydd sicrhau bod yr arferion hyn yn iach a diogel yn sicrhau bod **pobl yn bwytia'n dda, gan gymryd ymarfer corff ac osgoi ymddygiad niweidio iechyd** sy'n arwain at ganlyniadau ac amodau iechyd gwael.



Gall ymddygiadau dull o fyw cadarnhaol ymysg oedolion **helpu i osod esiampl dda i'w plant, eu hwyrion a'u cyfoedion**. Mae pobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw yn fwy tebygol o fod yn iach yn hwyrach ymlaen yn eu bywyd a wynebu llai o rwysterau i fwynhau bywyd.

Sut mae ein cynllun yn cyfrannu tuag at y Nodau Llesiant Cenedlaethol ac yn ymgorffori'r Ffyrdd o Weithio Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Mae Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd	
Cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	
Cymru lewyrchus	Bydd buddsoddi mewn plant, pobl ifanc a theuluoedd yn arwain at i deuluoedd fedru cynyddu a chyflawni eu potensial dysgu a gydol oes i'r eithaf. Er enghraifft, bydd plant iachach yn ymgysylltu'n dda mewn addysg gan arwain at iddynt fod yn fwy parod i'r ysgol, bod â sgiliau gwell ac yn fwy galluog i gael mynediad i gyfleoedd. Gall dechrau da mewn bywyd helpu i ostwng dibyniaeth ar fudd-daliadau, cynyddu lefelau hyder a hunanbarch cymuned a chymunedau mwy diogel.
Cymru gydnherth	Mae dechrau da mewn bywyd yn arwain at i'r cenedlaethau presennol a'r dyfodol fod yn fwy tebygol o ymwneud ag a chyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol. Drwy'r amgylchedd naturiol, gall plant, pobl ifanc a theuluoedd adeiladu cyfalaf cymdeithasol, cysylltu gydag eraill yn y gymuned a gwella llesiant meddwl, yn ogystal â chyfrannu tuag at ddiogelu'r ased hwn yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Cymru iachach	Mae dechrau da mewn bywyd yn fwy tebygol o arwain at well iechyd (er enghraifft, iechyd mamau, babanod yn cael eu geni'n iach ac yn y blaen). Drwy fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod, mae plant yn fwy tebygol o fod â gwell iechyd meddwl a chorfforol ac yn fwy tebygol o gael ymddygiad iechyd cadarnhaol ar hyd eu bywyd. Bydd hyn yn arwain at i genedlaethau'r dyfodol gael llai o risg o ddatblygu canser, clefyd y galon, diabetes, iechyd meddwl a llesiant gwael.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Bydd deall profiadau bywyd plant, pobl ifanc a theuluoedd a sut beth yw hi i fyw mewn cymuned neilltuol yn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried sut y gall ddatblygu Blaenau Gwent fwy cyfartal. Bydd sicrhau fod pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn golygu fod yn rhaid i wasanaethau fod yn hygyrch a theg i bawb, yn cynnwys y bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o fewn Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus mewn mwy risg o brofi anfanteision lluosog. Bydd mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn arwain at fwy o gydraddoldeb ar draws y nodau llesiant i gyd, ond yn neilltuol yng nghyswllt anghydraddoldeb iechyd yn ymwneud â disgwyliad oes.

Cymru o gymunedau cydlynus	Bydd buddsoddi mewn plant, pobl ifanc a theuluoedd yn arwain at gymunedau mwy cydlynus. Er enghraifft, bydd atal Profiadau Niweidiol mewn Plentynod yn arwain at ostyngiad mewn troseddau ieuencid, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau eraill. Bydd cymunedau diogelach yn arwain at gymunedau mwy egniol ac iachach gyda lefelau uwch o hyder a hunan-barch.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Bydd buddsoddi mewn plant, pobl ifanc a theuluoedd yn arwain at i bobl fod â lefelau hyder ac annibyniaeth uwch. Mae'r rhai sy'n ymwneud â dysgu yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden gan felly ostwng unigrwydd ac arwahanrwydd a chynyddu lefelau bodlonrwydd. Gellir hefyd ddefnyddio chwaraeon, celfyddydau a diwylliant i helpu lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol mewn Plentynod drwy adeiladu hyder drwy weithgareddau dargyfeiriol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cydnabod fod y Gymraeg a'r Saesneg yn elfennau allweddol yn hanes, diwylliant a ffabrig cymdeithasol Blaenau Gwent. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen ymdrech pob partner yn cydweithio ac ymgysylltiad a chyfranogiad preswylwyr Blaenau Gwent i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent yn effeithlon.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Bydd gwneud yn siŵr fod pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn cefnogi pobl i gael llesiant cyffredinol gwell ar hyd eu bywydau. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn dibyniaeth ar adnoddau gwasanaethau cyhoeddus a gostwng ôl-troed carbon yr ardal.

Mae Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd	
Gweithredu datblygu cynaliadwy (neu bum ffordd o weithio)	
Hirdymor	Dros yr hirdymor dymunwn chwalu cylchoedd Profiadau Niweidiol mewn Plentynod rhag cael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol drwy roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd. Rydym eisiau mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol hirdymor y gall Profiadau Niweidiol mewn Plentynod eu rhoi i deuluoedd, eu plant a'u hwyron yn y dyfodol.
Atal	Mae atal yn greiddiol i'r amcan hwn. Bydd sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd yn golygu fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y gall ganolbwyntio ei adnoddau presennol i sicrhau fod pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Bydd yn bwysig adnabod yn gynnar pwy sy'n agored i niwed neu mewn risg o ddod yn agored i niwed wrth gymryd dull ataliol i adnabod Profiadau Niweidiol mewn Plentynod ar y cyfle cynharaf (e.e. o genhedlu ymlaen). Bydd yn allweddol sicrhau fod gan deuluoedd fynediad i wasanaethau cyhoeddus sy'n integredig, yn canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd â ffocws ar atal. Er enghraifft, gall teuluoedd sy'n wynebu problemau fod angen cefnogaeth mewn meysydd fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, tai ac yn y blaen. Bydd mynd i'r afael yn effeithlon â'r achosion sylfaenol a helpu teuluoedd i oresgyn heriau bywyd yn arwain at deuluoedd hapusach ac iachach, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Integreiddio	Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi gwell integreiddio ar wasanaethau plant a theuluoedd a gwasanaethau ehangach (iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, tai ac yn y blaen). Byddwn yn cwmpasu cyfleoedd posibl megis cyd-leoli a chronni adnoddau mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i bobl a chymunedau lleol. Sylweddolwn hefyd y bydd angen i'n holl nodau llesiant gael eu cyflwyno'n llwyddiannus er mwyn i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd. Gan gymryd dull holistig, byddwn yn anelu i gefnogi Blaenau Gwent i gael bywydau iachach, hapus a bodlon.
Cydweithio	Byddwn yn cydweithio gyda Hyb Cefnogi Profiadau Niweidiol mewn Plentynod Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau Profiadau Niweidiol mewn Plentynod ar draws Blaenau Gwent.

	<p>Gan weithredu gyda'n gilydd, byddwn yn ystyried y ffordd orau i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd gan ddefnyddio dull holistig a byddwn yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid. Er enghraifft, byddwn yn ymchwilio sut y gallwn rannu gwybodaeth yn well ar draws gwahanol gyrff ac asiantaethau gwasanaeth cyhoeddus.</p>
Cynnwys	<p>Bydd cael plant, pobl ifanc a theuluoedd i gasglu 'profiadau bywyd' yn bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddeall y problemau. Er enghraifft, pa gefnogaeth mae pobl ei angen i drin rhai o'r achosion sylfaenol a'r heriau cymhleth sy'n eu hwynebu a sut i deilwra'r gefnogaeth hon ar gyfer gwahanol gymunedau. Er enghraifft, mae rhai o'r cwestiynau allweddol y gallem edrych ar eu hymchwilio yn cynnwys: Pa brofiadau gaiff rhieni pan maent yn feichiog ac ar ôl genedigaeth? Sut all teuluoedd gymryd rhan wrth ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol?</p> <p>Gwnawn yn siŵr y caiff eu lleisiau a'u profiadau eu casglu drwy gyflwyno Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem a byddwn yn defnyddio gwybodaeth dinasyddion i helpu llunio dyluniad gwasanaethau i ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Caiff cynnwys eraill ei wneud yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.</p>

Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar	
Cyfrannu tuag at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	
Cymru lewyrchus	<p>Bydd creu cymunedau diogel a chyfeillgar yn arwain at i Flaenau Gwent ddod yn ardal lle gall pobl ffynnu, datblygu sgiliau newydd ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Bydd yn eu galluogi i gynyddu eu cyfleoedd a'u potensial bywyd i'r eithaf tra'n cyfrannu tuag at economi lleol cryfach a welir fel lle i wneud busnes, i fuddsoddi ynddo ac ymweld ag ef fel cyrchfan twristiaeth.</p> <p>Mae angen trin goresgyn problemau trafndiaeth i sicrhau y gall pobl gysylltu'n gorfforol a chael mynediad i wasanaethau o fewn eu cymunedau yn effeithlon mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd byd-eang a'r effaith ar newid yn yr hinsawdd.</p>
Cymru gydnherth	<p>Bydd galluogi pobl leol i gymryd perchnogaeth o asedau lleol yn hyrwyddo mwy o ymdeimlad o falchder yn yr ardal ac yn cynyddu cyfleoedd i greu amgylcheddau naturiol bywiog sy'n ddiogel a hygyrch i bawb. Bydd hyn yn arwain at i fuddion cymdeithasol ac economaidd gael eu gwireddu gan genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.</p>
Cymru iachach	<p>Bydd gostwng lefelau trosedd, mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd a chreu cymunedau cyfeillgar yn cyfrannu'n effeithlon tuag at Flaenau Gwent iachach ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu fod pobl sy'n ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol yn fwy tebygol o gael lefelau cyffredinol well o lesiant. Felly bydd creu amgylcheddau cymunedol diogel yn rhoi'r hyder i gymunedau fwynhau eu hamgylchedd naturiol drwy amrywiaeth o wahanol weithgareddau, fydd yn arwain at ystod eang o fanteision iechyd cysylltiedig.</p>
Cymru sy'n fwy cyfartal	<p>Bydd creu cymunedau diogel a chyfeillgar lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac y gallant chwarae rhan weithgar mewn cymdeithas yn annog Blaenau Gwent i ddod yn lle cyfartal, sy'n parchu ac yn hyrwyddo gwerthoedd pobl eraill.</p> <p>Mae'r nod llesiant hwn hefyd yn mynd ati i sicrhau nad yw pobl o fewn y naw nodwedd warchoddedig Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 (oedran, anabled, ailbennu rhywedd, rhyw, hil, crefydd neu gredo, beichiogrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, yn cynnwys y Gymraeg) dan anfantais.</p>

Cymru o gymunedau cydlynus	Bydd creu cymunedau diogel a chyfeillgar yn arwain at gymunedau lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn a lle gallant wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymdeithas, gan arwain at gymunedau mwy cydlynus ledled Blaenau Gwent, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Bydd creu cymunedau diogel a chyfeillgar yn hyrwyddo cynnydd mewn balchder yn niwylliant a threftadaeth unigryw Blaenau Gwent ac yn y Gymraeg. Bydd hyn yn arwain at ddathlu, hyrwyddo a diogelu'r ardal yn awr, gan arwain at fwynhad ar gyfer pobl heddiw a hefyd genedlaethau'r dyfodol. Gwyddom hefyd y bydd pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn fwy hyderus i gymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a hamdden. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen ymdrech pob partner yn cydweithio ac ymgysylltiad a chyfranogiad preswylwyr Blaenau Gwent i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent yn effeithlon.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Bydd creu cymunedau diogel a chyfeillgar yn cefnogi gwell llesiant cyffredinol ar hyd bywyd. Bydd hyn yn arwain at ostwng y ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus i ddarparu cefnogaeth, gan felly gyfrannu tuag at ostwng ôl-troed carbon yr ardal. Sylweddolwn y bydd cynyddu'r ymdeimlad o falchder yn yr ardal hefyd yn arwain at i bobl a chymunedau lleol gymryd perchnogaeth am ofalu ar ôl amgylcheddau naturiol yr ardal, gan arwain at ddiogelu tirweddau a bioamrywiaeth lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Blaenau Gwent eisiau cymunedau diogel a chyfeillgar	
Gweithredu datblygu cynaliadwy (neu bum ffordd o weithio)	
Hirdymor	Rydym wedi ystyried tueddiadau'r dyfodol megis poblogaeth yn heneiddio a byddwn yn ystyried beth mae pobl hŷn ei angen i deimlo'n ddiogel ac wedi cysylltu gyda'u cymunedau, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, byddwn yn ystyried sut y gall technoleg ei ddefnyddio'n well i ostwng unigrwydd ac arwahanrwydd (e.e. rhwydweithiau cymdeithasol, cynlluniau trafndiaeth cymunedol ar-lein ac yn y blaen). Sylweddolwn hefyd y bydd angen dull gweithredu hirdymor i fynd i'r afael â rhai o'r materion cymhleth a heriau'r ardal er mwyn sicrhau newid cadarnhaol cronus cyson.
Atal	Mae defnyddio dull ataliol yn sylfaenol i greu Blaenau Gwent ddiogelach a chyfeillgar. Er enghraifft, sylweddolwn fod angen i ni fel sefydliadau cyrff cyhoeddus weithio'n egniol gyda phobl a chymunedau lleol ar y cyfle cynharaf i atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Er enghraifft, bydd deall achosion sylfaenol rhai mathau o ymddygiad yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu ymyriadau cynnar ataliol addas. Er enghraifft, bydd rhwystro tipio anghyfreithlon rhag digwydd yn arwain at ardaloedd glanach a gostyngiad tebygol yn nifer y tannau bwriadol.
Integreiddio	Sylweddolwn y bydd angen cyflwyno'n holl amcanion yn llwyddiannus er mwyn creu Blaenau Gwent ddiogel a chyfeillgar. Gan ddefnyddio dull holistig, byddwn yn cefnogi pobl i fyw bywydau iachach, hapusach a mwy bodlon. Bydd felly'n cefnogi Blaenau Gwent i ddod yn lle bywiog, gydag ymdeimlad cryf o gymuned ac yn arwain at fanteision cymdeithasol, iechyd, economaidd ac amgylcheddol ehangach i lesiant.
Cydweithio	Byddwn yn cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid i greu cymunedau diogelach a chyfeillgar. Er enghraifft, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaeth ranbarthol Gwent Ddiogelach sy'n arwain ar drin materion diogelwch y gymuned.

Cynnwys

Bydd casglu profiadau bywyd pobl a chymunedau Blaenau Gwent yn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael gwell dealltwriaeth o broblemau a heriau'r ardal. Bydd yn hanfodol dynodi achosion sylfaenol mathau o ymddygiad, neu ddeall sut y gellir cyflwyno gwasanaethau'n wahanol i ddiwallu angen, yn wybodaeth hanfodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut y gall gefnogi Blaenau Gwent i ddod yn lle diogel a chyfeillgar i fyw ynddo.

Gwnawn yn siŵr y caiff eu lleisiau a'u profiadau eu casglu drwy gyflwyno Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem yn cynnwys y rhai a ddaw o fewn y naw nodwedd warchoddedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010. Bydd defnyddio gwybodaeth dinasyddion yn ein helpu i lunio, cynllunio a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cenedlaethau cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol.

Caiff cynnwys eraill ei wneud yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol	
Cyfrannu tuag at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	
Cymru lewyrchus	Bydd buddsoddi mewn arferion mwy cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy yn helpu i ysgogi'r economi lleol.
Cymru gydnherth	Drwy fanteisio ar ein hasedau naturiol a datblygu ein gallu adnewyddadwy, byddwn yn fwy parod ar gyfer sgil-ffeithiau newid yn yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn ystyried sut mae'n penderfyniadau ni fel sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn cael effaith ar yr amgylchedd (yn cynnwys bioamrywiaeth yr ardal) yn ogystal â chael pobl leol a chymunedau i gefnogi cynlluniau sy'n diogelu'r amgylchedd yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Cymru iachach	Bydd grymuso pobl i ddiogelu a gofalu am amgylcheddau naturiol Blaenau Gwent yn cefnogi cymunedau i ddod yn iachach. Mae annog cymunedau i gymryd rhan mewn cynlluniau sy'n gwella ansawdd a hygyrchedd gofodau gwyrdd yn dod â manteision iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Er enghraifft, mae bod yn yr awyr agored a mynd yn agos at natur yn cyfoethogi bywydau pobl a phrofwyd ei fod yn dod â manteision mawr i lesiant cyffredinol person. Er enghraifft, mae mwynhau awyr iach neu synau naturiol bywyd gwyllt i gyd yn cyfrannu tuag at wella iechyd meddwl, gostwng lefelau straen a chynyddu agweddau cadarnhaol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Byddwn yn anelu i sicrhau fod pobl yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth am ofalu am a diogelu ein hamgylcheddau naturiol gan eu bod yn eiddo i bawb ac y dylai pawb eu mwynhau, yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus byddwn yn cymryd camau i sicrhau fod pawb yn cael mynediad i amgylcheddau naturiol ansawdd uchel a bod pawb yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar effeithiau cadarnhaol y mae'n ei gael ar lesiant.
Cymru o gymunedau cydlynus	Rydym yn cydnabod y gellir datblygu cyfalaf cymdeithasol, cryfhau ysbryd cymunedol a dod â phobl at ei gilydd drwy gynlluniau sy'n grymuso cymunedau i gymryd perchnogaeth a gofalu am a diogelu eu hamgylcheddau lleol. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at gymunedau diogelach a mwy cyfeillgar (er enghraifft, gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol, parch ar gyfer bywyd gwyllt ac yn y blaen).

<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth ddiwylliannol fywiog a chyfoethog. Gellir ymgysylltu ac annog pobl a chymunedau lleol i ofalu am a diogelu eu cymunedau mewn llawer o ffyrdd cyffrous, yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a hamdden.</p> <p>Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen ymdrech pob partner yn cydweithio ac ymgysylltiad a chyfranogiad preswylwyr Blaenau Gwent i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent yn effeithlon.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang</p>	<p>Bydd gofalu am a diogelu amgylcheddau naturiol Blaenau Gwent yn arwain at ardaloedd mwy bywiog, glanach a bioamrywiol.</p> <p>Mae hyn yn ei dro yn debygol o annog mwy o'r boblogaeth i fabwysiadu ymddygiad niwtral o ran carbon e.e. cerdded/seiclo.</p>

<p>Mae Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol</p>	
<p>Gweithredu datblygu cynaliadwy (neu bum ffordd o weithio)</p>	
<p>Hirdymor</p>	<p>Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau ei fod yn ystyried effeithiau hirdymor ei benderfyniadau, gan sicrhau nad yw'r camau a gymerir yn niweidio amgylcheddau naturiol a bioamrywiaeth yr ardal. Sylweddolwn fod terfyn ar faint yr adnoddau naturiol sydd gennym ac felly bydd yn bwysig ystyried sut y defnyddiwn yr adnoddau hyn yn deg mewn ffordd gynaliadwy, a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Bydd angen ystyried effeithiau'r tueddiadau cyfredol a dyfodol hirdymor megis newid yn yr hinsawdd ar bobl a chymunedau lleol a'r amgylchedd naturiol. Felly, gan ddefnyddio dull hirdymor byddwn yn anelu i weithredu i ostwng allyriadau carbon Blaenau Gwent a diogelu a thyfu'r asedau naturiol sydd gennym i greu cymunedau mwy cydnerth.</p>
<p>Atal</p>	<p>Bydd cymryd dull ataliol yn allweddol i sicrhau fod Blaenau Gwent yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, a sicrhau fod yr ardal yn lleihau ei chyfraniad at newid yn yr hinsawdd.</p> <p>Gan gymryd dull ataliol, byddwn yn diogelu harddwch naturiol a natur yr ardal fel y gall pawb fwynhau manteision llesiant yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p>
<p>Integreiddio</p>	<p>Mae angen i'n holl nodau llesiant gael eu cyflwyno'n llwyddiannus er mwyn gofalu am a diogelu ein hamgylcheddau naturiol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod sut mae amgylchedd naturiol Blaenau Gwent yn ased gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio fel sbringfwrdd i hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar draws y nodau llesiant.</p>
<p>Cydweithio</p>	<p>Bydd angen i ni gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol.</p> <p>Bydd hefyd angen cydweithio i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer pobl a chymunedau lleol i fedru manteisio o'u hamgylcheddau naturiol a drwy gydweithio gobeithiwn ostwng faint o adnoddau a ddefnyddiwn ac felly ein ôl-troed carbon.</p>
<p>Cynnwys</p>	<p>Byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau lleol, yn ogystal ag ystod o randdeiliaid ehangach i gyflawni'r amcan hwn. Ni all y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni'r amcan hwn ar ben ei hun ac mae angen cefnogaeth a chyfranogiad pawb yn ein hardal i wneud iddo ddigwydd.</p>

Mae Blaenau Gwent eisiau llunio ffyrdd newydd i ffyniant	
Cyfrannu tuag at Nodau Llesiant Cenedlaethol	
Cymru lewyrchus	Bydd gweithio i greu economi llesiant llwyddiannus yn galluogi Blaenau Gwent i wneud cyfraniad mwy egniol i ffyniant Cymru ac i'w chymunedau gael cyfran deg a rhan yn y ffyniant hwn.
Cymru gydnherth	Bydd economi llesiant a gynlluniwyd ar gyfer yr hirdymor ac sy'n barod ar gyfer tueddiadau a newidiadau'r dyfodol (megis newid yn yr hinsawdd) yn helpu i feithrin cydnherthed.
Cymru iachach	Gall economi lleol sy'n gwella ffyniant, dyheadau ac ansawdd bywyd ar gyfer pobl Blaenau Gwent helpu i hwyluso Cymru iachach a chwalu'r cylch a chysylltiad iechyd gwael, anghydraddoldeb ac amddifadedd.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Bydd cael economi llesiant yn helpu i sicrhau cymdeithas fwy cyfartal gyda llai o bobl yn wynebu caledi ariannol, allgauedd ac anfantais fel canlyniad.
Cymru o gymunedau cydlynus	Bydd economi llwyddiannus sy'n cyflwyno llesiant, yn rhoi pobl mewn swyddi da ac yn eu helpu i gael sgiliau da yn galluogi pobl i wneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymuned leol a gostwng allgau cymdeithasol ac arwahanrwydd.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Bydd economi lleol gwell sy'n codi safonau byw ac incwm dros ben aelwydydd yn galluogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gymryd rhan mwy o ran mewn gweithgareddau diwylliannol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen ymdrech pob partner yn cydweithio ac ymgysylltiad a chyfranogiad preswylwyr Blaenau Gwent i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent yn effeithlon.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Bydd ail-gastio ein heconomi lleol drwy'r amcan yma yn ein galluogi i symud i ddull mwy cynaliadwy, carbon isel o ddatblygiad economaidd. Er enghraifft, bydd cadwyni cyflenwi byrrach yn gostwng ein ôl-troed carbon.

Mae Blaenau Gwent eisiau llunio ffyrdd newydd i ffyniant	
Gweithredu datblygu cynaliadwy (neu bump ffordd o weithio)	
Hirdymor	Drwy ail-gastio ein syniadau economaidd a gwaith rydym eisiau cefnogi busnesau lleol i fod wedi gwreiddio am yr hirdymor a datblygu model economaidd a adeiladwyd i barhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen gweledigaeth hirdymor i fynd i'r afael â'r problemau economaidd-gymdeithasol cymhleth sy'n gysylltiedig gyda diffyg ffyniant. Mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol a phroblemau sy'n atal pobl rhag ffynnu a chyflawni eu potensial dysgu a gydol oes llawn yn golygu fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried anghenion cyfredol a hirdymor. Mae sicrhau fod gan bobl y cymwysterau a sgiliau ac adnoddau angenrheidiol i'w paratoi ar gyfer sectorau marchnad lafur cyfredol a'r dyfodol hefyd yn rhan o'r amcan. Er enghraifft, byddwn yn ystyried sut y gallwn helpu pobl i gael mynediad i systemau trafnidiaeth effeithlon sy'n eu cefnogi i fod yn economaidd weithgar.
Atal	Bydd economi llesiant llwyddiannus yn gwella ansawdd bywyd ac yn helpu i atal amddifadedd, tlodi a llawer o'r canlyniadau bywyd gwael sy'n codi fel canlyniad uniongyrchol.
Integreiddio	Mae cael economi lleol cadarn yn gosod y sylfeini ar gyfer llawer o'n hamcanion eraill drwy godi llesiant materol a safon byw sy'n helpu pobl i gael ffyrdd iach o fyw gydag ystod amrywiol o weithgareddau a diddordebau. Bydd adeiladu ar egwyddorion economi cylchol yn cyfrannu at ein nod i ddiogelu a meithrin yr amgylchedd naturiol.
Cydweithio	Mae cefnogi'r economi sylfaenol angen cydweithrediad gwahanol bartneriaid, a hefyd felly fodelau amgen o ddatblygiad economaidd.
Cymryd rhan	Bydd Blaenau Gwent angen mwy o ymgyfraniad cymunedol, cyfranogiad a chyd-gynhyrchu i gael rhan go iawn mewn ffyniant.

Mae Blaenau Gwent eisiau hyrwyddo ac annog ffyrdd iach o fyw	
Cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol	
Cymru lewyrchus	Mae poblogaeth sy'n gwneud dewisiadau ac arferion iach yn fwy tebygol o fod yn economaidd weithgar, mewn gwaith a gwneud cyfraniad at ffyniant Cymru.
Cymru gydnherth	Mae trin canlyniadau ffyrdd iach o fyw yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus ac o'r herwydd angen adnoddau ychwanegol. Mae'r nod hefyd yn helpu i ddiwallu anghenion tueddiadau'r dyfodol o boblogaeth yn heneiddio gyda bywydau iachach yn rhydd o gyflyrau cronig ymhell i henoed.
Cymru iachach	Bydd cael ffyrdd o fyw ac ymddygiad mwy iach yn arwain at well deilliannau iechyd a "normaleiddio" ffyrdd iach o fyw a all yn eu tro gael eu trosglwyddo a'u dysgu gan genedlaethau'r dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae anghydraddoldeb iechyd yn arwydd o gymdeithas anghyfartal, yn arbennig y gydberthynas rhwng amddifadedd ac iechyd gwael sydd mor amlwg ym Mlaenau Gwent. Mae poblogaeth iachach yn boblogaeth sydd mewn gwell sefyllfa i gael mynediad i gyfleoedd ac wynebu llai o anafteision.
Cymru o gymunedau cydlynus	Mae ffyrdd o fyw ac ymddygiad iach yn helpu pobl i ddod yn fwy egniol yn eu cymunedau sy'n aml ag elfen gymdeithasol. Bydd hyn yn arwain at i bobl fod yn fwy hyderus a mwy o hunanbarch fydd yn arwain at i bobl fod â rhwydweithiau cymdeithasol mwy cadarnhaol a lefelau is o unigrwydd ac arwahanrwydd.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Mae cymunedau iachach yn arwain at i gymunedau a phobl leol fedru byw bywydau mwy cyfoethog, yn deillio o fanteision gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol lleol. Mae'r rhai gyda ffordd iach o fyw yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, chwaraeon a diwylliant. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen ymdrech pob partner yn cydweithio ac ymgysylltiad a chyfranogiad preswylwyr Blaenau Gwent i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwyno amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent yn effeithlon.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Yn ddelfrydol bydd ffyrdd iach o fyw yn arwain at lai o ddefnydd o adnoddau'r ddaear a phoblogaeth a all addasu'n rhwyddach i ymddygiad carbon niwtral e.e. cerdded/seiclo yn hytrach na gyrru.

Mae Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffyrdd iach o fyw	
Gweithredu datblygu cynaliadwy (neu bum ffordd o weithio)	
Hirdymor	Effaith hirdymor ffyrdd iach o fyw yw teuluoedd iachach a chenedlaethau'r dyfodol sy'n dysgu ac yn mabwysiadu ymddygiad iach. Bydd gostwng clefydau y medrir eu hatal yn yr hirdymor hefyd yn gostwng pwysau ar sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus (galw a chost) sydd eu hangen i ymateb i glefydau cronig a chyfyngedig fel canserau a chlefydau cardiofasgwlaidd.
Atal	Cynlluniwyd y nod i atal a lliniaru tueddiadau iechyd y medrir eu hatal yn llwyr fel cyflyrau cronig megis diabetes math dau a chlefyd y galon yn ogystal â'r tueddiad cynyddol mewn gordewdra oedolion a phlant.
Integreiddio	Caiff y nod hefyd ei integreiddio i agendâu eraill megis teithio llesol, gwella iechyd meddwl, llai o arwahanrwydd a gwell gofal i'r amgylchedd o amgylch ymhlith pethau eraill.
Cydweithio	Bydd cydweithio yn sylfaenol i gyflwyno'r nod llesiant hwn. Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gydag ystod eang o randdeiliaid (yn cynnwys busnesau preifat) dros gyfnod sylweddol i newid diwylliant a gwneud ymddygiad iach yn 'norm'.
Cynnwys	Bydd y nod yn rhoi'r dinesydd wrth galon sut y caiff y nod hwn ei foddelu ar gyfer llwyddiant. Mae grymuso pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol angen cefnogaeth ac ymgysylltiad y gymuned yn ehangach. Bydd dylanwad cyfoedion, rhwydwaith cymdeithasol a'r amgylchedd lleol yn ysgogydd allweddol mewn newid ymddygiad ac felly'n dibynnu ar gefnogaeth graddfa fawr y boblogaeth.

Geirfa

Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs)	<p>Mae ACEs yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac yn cael eu cofio trwy gydol eu hoed.</p> <p>Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddiodef camdriniaeth ar lafar, meddylol, rhywiol a chorfforol, i gael eich codi mewn cartref lle mae trais yn y cartref, camddefnyddio alcohol, gwahaniad rhieni neu gam-drin cyffuriau yn bresennol.</p>
Teithio Gweithredol	Ffordd o deithio sy'n gofyn am weithgarwch corfforol fel cerdded a beicio.
Datblygiad gwybyddol	Datblygiad gwybyddol yw adeiladu prosesau meddwl, gan gynnwys cofio, datrys problemau a gwneud penderfyniadau, o blentyndod hyd at flaenlencyndod i oedolaeth.
Gwydnwch Cymunedol	Mae Swyddfa'r Cabinet yn diffinio gwydnwch cymunedol fel 'cymunedau, busnesau ac unigolion sydd wedi'u grymuso i harneisio adnoddau lleol ac arbenigedd i i) paratoi, ymateb ac adfer rhag heriau aflonyddgar a ii) gallu cynllunio ac addasu i newidiadau cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor i sicrhau eu ffyniant a'u gwydnwch yn y dyfodol.
Gwasanaethau Ecosystem	Buddion a ddarperir gan natur sy'n cyfrannu at wneud bywyd dynol yn bosibl ac yn werth byw.
Economi Sylfaenol	Mae Economi Sylfaenol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r gweithgareddau busnes y byddwn ni'n eu defnyddio bob dydd a'u gweld ymhob man o'n cwmpas. Mae'n cynnwys busnesau fel diwydiannau manwerthu, gofal a bwyd.
Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol	Adroddiad wedi'i gynllunio i gefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer y tymor hir. Mae'n nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.
Model Rhesymeg	Ffordd systematig a gweledol o gyflwyno'r camau allweddol sydd eu hangen er mwyn troi set o adnoddau neu fewnbynnau i weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i arwain at set benodol o newidiadau neu ganlyniadau.
Deddfwriaeth yng Nghymru	Mae Mesur yn gyfraith ddrafft. Unwaith y bydd Mesur wedi'i ystyried a'i basio gan y Cynulliad ac wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad'. Felly, mae'n dod yn gyfraith.

Dadansoddiad Ymateb	Dadansoddiad dyfnach sy'n cael ei ddefnyddio fel ffordd i helpu i ddeall y dystiolaeth ymhellach. Gellir ei ddefnyddio i ddatblygu dealltwriaeth o sut, ac i ba raddau, mae'r gwasanaethau presennol yn mynd i'r afael â materion. Mae'n ddull sy'n helpu i nodi a gwerthuso dulliau eraill o ddarparu, tra'n ystyried sut y bydd tueddiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn y dyfodol yn effeithio ar lesiant lleol.
Cyfalaf Cymdeithasol	Y rhwydweithiau o berthnasau ymhlith pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cymdeithas benodol, gan alluogi'r gymdeithas honno i weithredu'n effeithiol.
Rhagnodi Cymdeithasol	Nid oes diffiniad penodol clir. Fodd bynnag, o fewn y cynllun, diffinnir rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o gysylltu unigolion â ffynonellau cymorth heb fod yn glinigol, yn y gymuned. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys gwirfoddoli, gweithgareddau celfyddydol, dysgu grŵp, garddio, cyfeillio, coginio, cyngor bwyta'n iach ac ystod o weithgaredd corfforol.
Datblygu Cynaliadwy FR4R	Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.
Egwyddor datblygu cynaliadwy (a elwir hefyd yn bum ffordd o weithio)	Cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt ystyried y pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys)
UNESCO	Sefydliad Addysg, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Blaenau Gwent

PUBLIC SERVICES BOARD

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwefan: <http://www.blaenaugwentpsb.org.uk>